

**Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
(BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Ionawr 2023 yn Gyfarfod Rhithwir
a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams**

Aelodau'n bresennol:

Emrys Elias	Cadeirydd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Jayne Sadgrove	Is-Gadeirydd/Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Lynda Thomas	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Dom Hurford	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Lauren Edwards	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Gethin Hughes	Prif Swyddog Gweithredu
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl

Eraill yn bresennol:

Stuart Morris	Cyfarwyddwr Digidol
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Laura Sherratt	Blake Morgan (Yn rhannol – Cyflwynydd Allanol ar gyfer eitem 3.1)
Owen James	Pennaeth Cyllid Corfforaethol
Mark Jones	Archwilio Cymru (yn rhannol)
Matthew Butt	Pennaeth Staff
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

**Eitem ar yr
Agenda**

1 MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a'r cydweithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nodwyd** hefyd fformat y digwyddiad yn ei ffurf rithwir gan y Cadeirydd.

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:

- Carolyn Donoghue, Aelod Annibynnol
- Mel Jehu, Aelod Annibynnol
- Geraint Hopkins, Aelod Annibynnol
- Lisa Curtis-Jones, Aelod Cyswllt

1.3 **Datganiadau o Fuddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yr adeg hon.

2 **AGENDA CYDSYNIAD – I'W NODI**

2.1.1 **Hunanasesiad Blynyddol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol**

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3. **SESIWN YMWHYBYDDIAETH ALLANOL**

3.1 **Sesiwn Ymwybyddiaeth Ymddiriedolwyr Corfforaethol**

Rhannodd L Sherratt, Blake Morgan, gyflwyniad gyda'r Aelodau a roddodd ymwybyddiaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr.

Diolchodd y Cadeirydd i L Sherratt am ymuno â'r sesiwn a rhoi'r diweddariad ymwybyddiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan O James ynghylch a oedd unrhyw feysydd yr oedd angen eu cryfhau yn dilyn yr adolygiad o'r gweithredoedd, dywedodd L Sherratt fod rhai tudalennau ar goll o'r datganiad ymddiriedaeth ac ychwanegodd y byddai'n hapus i gynnal adolygiad manylach os oes angen.

Dywedodd P Roseblade ei bod bob amser wedi ei gwneud yn glir iawn trwy ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol mai dim ond ar gyfer yr eitemau hynny a oedd o fudd i staff a chleifion y dylid defnyddio Cronfeydd Elusennol a dywedodd ei bod yn teimlo'n bryderus pan oedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â defnyddio cronfeydd elusennol i hyrwyddo gwasanaethau'r GIG. Ychwanegodd P Roseblade fod y Bwrdd Iechyd yn y broses o recriwtio Rheolwr Elusen a'i rôl fyddai codi proffil cronfeydd elusennol o fewn y sefydliad. Rhoddodd O James sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio cwmni allanol i reoli buddsoddiadau ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gyda'r Rheolwr Buddsoddi yn mynychu'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad buddsoddiadau.

Cyfeiriodd L Thomas at y pwynt a wnaed gan P Roseblade mewn perthynas â'r defnydd priodol o'r Cronfeydd Elusennol a dywedodd ei bod wedi cynnal adolygiad cyflym o'r modd yr oedd Sefydliadau Elusennol GIG mwy wedi dyrannu eu cronfeydd a oedd yn amrywiol. Cwestiynodd L Thomas a oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Bwrdd Iechyd ei ystyried wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'n gyflymach.

Dywedodd O James y byddai adolygiad o gronfeydd a'r ffordd y cânt eu defnyddio yn ddefnyddiol. Nododd yr aelodau fod 157 o gronfeydd o fewn

yr elusen, pob un â nifer o ddeiliad cronfa sy'n heriol o ran cyflawni ymagwedd strategol. Nododd yr aelodau y gallai hwn fod yn faes gweithgaredd a gai ei ymgorffori yng nghynllun gwaith y Rheolwr Elusen newydd unwaith y bydd yn ei swydd.

Croesawodd P Mears y drafodaeth a oedd yn cael ei chynnal a'r camau sy'n cael eu cymryd i recriwtio Rheolwr Elusen. Dywedodd P Mears nad oedd y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn codi arian fel elusen ac ychwanegodd y byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai gan y Bwrdd Iechyd Reolwr Codi Arian yn ei swydd i gynorthwyo gyda hyn. Nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth staff o sut y gallent wneud cais am arian elusennol ac ychwanegodd P Mears efallai y byddai'n ddefnyddiol pe gellid codi ymwybyddiaeth drwy'r Sesiynau Holi ac Ateb i Arweinwyr a Staff.

Dywedodd P Roseblade wrth yr Aelodau, mewn perthynas â'r swyddi elusennol newydd arfaethedig, fod y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn cydnabod y byddai'r rolau'n dod yn hunan-gyllidol trwy broses o godi arian dros gyfnod o dair blynedd, ac ychwanegodd, er mai'r Bwrdd Iechyd fyddai'n gyfrifol am y swydd, y byddai'r swydd yn cael ei hariannu drwy Gronfeydd Elusennol.

Croesawodd L Thomas y dull a awgrymwyd mewn perthynas â swyddi elusenol a dywedodd y byddai'n hapus i helpu i ddatblygu'r swydd-ddisgrifiadau. Dywedodd O James fod Swydd-ddisgrifiadau eisoes yn eu lle yn dilyn cymorth a dderbyniwyd gan NHS Charities Together.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Hehir ynghylch pryd oedd y newidiadau yn y gyfraith i fod i ddod i rym, dywedodd L Sherratt fod hyn yn cael ei weithredu fesul cam ac ychwanegodd y byddai'n hapus i rannu'r amserlen weithredu gyda'r aelodau pe bai angen.

Diolchodd y Cadeirydd i L Sherratt am y cyflwyniad ac am y sylwadau cadarnhaol a wnaed a mynegodd yr angen i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd y rheolaethau a'r disgwyliadau cywir ar waith ar gyfer y Rheolwr Elusennau newydd.

Penderfyniad: **NODWYD** y cyflwyniad.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON BLYNYDDOL

4.1 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol y Cronfeydd Elusennol

Cyflwynodd S May yr adroddiad a dywedodd fod angen cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'r Comisiwn Elusennau erbyn 31 Ionawr 2023 ar ôl eu cymeradwyo.

Dywedodd M Jones, yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd, fod Archwilio Cymru yn cynnig barn archwilio ddiamod a fyddai'n golygu y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu ardystio'r chyfrifon erbyn 11am yfory pe bai'r Ymddiriedolwyr yn eu cymeradwyo heddiw. Nododd yr aelodau nad oedd

unrhyw faterion arwyddocaol yn codi nac unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. Roedd tri argymhelliad wedi'u gwneud a oedd wedi'u derbyn gan y rheolwyr. Diolchodd M Jones i'r holl swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod y broses hon.

Diolchodd y Cadeirydd i S May ac M Jones am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol y Cronfeydd Elusennol

5 **UNRHYW FATER ARALL**

Ni nodwyd unrhyw feysydd busnes eraill.

6 **Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu adborth gan Aelodau'r Bwrdd y tu allan i'r cyfarfod ynghylch sut aeth cyfarfod heddiw yn eu barn nhw.

7 **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn ddydd Mercher 26 Ebrill 2023 am 9am.

10 **DIWEDD Y CYFARFOD**